



Cardiff Students' Union  
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# Swyddog Hygyrchedd

## Y Rôl:

Bydd y Swyddog Hygyrchedd yn cynrychioli diddordebau myfyrwyr ag anableddau, ac yn ymgyrchu dros hygyrchedd ar gyfer pob myfyriwr ar draws y campws. Mae'n rôl wirfoddol a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cyflawni'r rôl ochr yn ochr â'i astudiaethau. Bydd pob Swyddog etholedig yn cael hyfforddiant a chefnogaeth i gyflawni eu rôl, felly nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol.

Bydd y Swyddog Hygyrchedd yn:

- Cynrychioli pob myfyriwr anabl
- Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo buddiannau'r myfyrwyr y maent yn eu cynrychioli
- Lobio am newid ar draws y brifysgol
- Cynllunio a rhedeg ymgyrchoedd
- Mynychu cyfarfodydd Undeb y Myfyrwyr a chysylltu'n rheolaidd â staff allweddol

<b>Sgiliau y byddwch yn eu datblygu:</b>	<b>Cyfleoedd a buddion:</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Arweinyddiaeth</li><li>• Cyfathrebu</li><li>• Sgiliau trefniadol</li><li>• Sgiliau gwrando a rhyngpersonol</li><li>• Lobio</li><li>• Gwaith tîm</li><li>• Profiad cynllunio prosiectau</li><li>• Cynllunio a gweithredu ymgyrchoedd</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Hyfforddiant mewnol gan yr UM</li><li>• Cefnogaeth a mentora gan staff yr UM</li><li>• Rhywbeth gwych i roi ar eich CV</li><li>• Cyfarfod pobl newydd</li><li>• Dod i ymwneud mwy a'r UM</li><li>• Cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i brofiad myfyrwyr.</li></ul>

## Cymhwysedd:

Os ydych yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Caerdydd, mae hawl gennych sefyll yn etholiadau Undeb y Myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys israddedigion yn ogystal â phob myfyriwr rhan-amser, myfyrwyr aeddfed, myfyrwyr ôl-raddedig ac ymchwil, a myfyrwyr rhyngwladol.

**Enwebwch eich hun:** [cardiffstudents.com/elections](http://cardiffstudents.com/elections)



The heart of Cardiff student life  
Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Tîm Etholiadau ar [etholiadau@cardiff.ac.uk](mailto:etholiadau@cardiff.ac.uk).



**The heart of Cardiff student life**  
Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd